

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at nifer o'n haelodau sydd heb fod yn dda. Cafodd Aled Roberts (Henllan) lawdriniaeth frys yn ystod yr wythnos ac mae Menna Owen (Cefn Meiriadog), Gwilym Foulkes (Nantglyn) a Doreen Evans (Tanyfron) hefyd yn Ysbyty Glan Clwyd, tra bod Harold Lloyd (Tanyfron) bellach wedi ei symud i Ysbyty Bae Colwyn. Gobeithiwn yn fawr y bydd Barbara Williams (Henllan) wedi cael dod adref o'r ysbyty erbyn y byddwch chi'n darllen y neges yma. Deallwn hefyd fod Huw Lloyd (Llanfair) wedi bod yn yr ysbyty am ychydig ddyddiau yn dilyn anffawd yn ddiweddar. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn i bob un ohonynt a phawb arall o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn, gan hyderu y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu gwarchod a'u cynnal yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau calonnog i Iwan Jones (Llansannan) a Glian ar eu priodas yr wythnos ddiwethaf, ac yn yr un modd i Rhys Williams (Llanefydd) ac Anna ar eu priodas ddoe. Bendithion lu iddynt i'r dyfodol.
- Llongyfarchiadau hefyd i Sian (Llanefydd) a Mike ar enedigaeth mab, Owain. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

Adnoddau

- **DVD** Os oes rhywun yn dymuno cael copi DVD o'r Cyfarfod Sefydlu a Chomisiynu a gynhaliwyd nos Sul, Hydref 2il, rhwch wybod i Mair (870632) erbyn fory, os gwelwch yn dda. Pris: £5.00.
- **NOSWEITHIAU ARDDANGOS A HYRWYDDO GWERSLYFRAU AC ADNODDAU CRISTNOGOL** i athrawon Ysgol Sul, arweinwyr eglwysig, gweinidogion a llygywyr ar gyfer cyflwyno'r gwर्सlyfrau newydd ar gyfer Ionawr 2012, ac ystod o lyfrau addas ar gyfer cynnal oedfaon: nos Fawrth, Tachwedd 1af - Capel Mawr Dinbych am 7.30 (plant a ieuencid) ac 8.00 (oedolion); bore Sadwrn am 10.30, Tachwedd 5ed - Mynydd Seion, Abergele. Mwy o fanylion ar y poster yng nghyntedd eich capel neu trwy ffonio Mair (870632).

I ddod

- **Penwythnos CIC** (Bl.7-11) yng Ngholeg y Bala, Tachwedd 11eg-13eg. Bydd gostyngiad yn y pris (rhwng £10 - £20) i ieuencid Eglwysi Bro Aled, a bydd trefniadau teithio yn cael eu gwneud i bwy bynnag fydd angen. Cysylltwch â Rhodri i gael ffurflen ganiatâd neu os ydych chi angen mwy o wybodaeth (01745 870522 / 07814 660291). Rhaid dychwelyd y ffurflen i'r Coleg erbyn Hydref 30ain.
- **Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod nos Fawrth, Tachwedd 15fed yng Nghanolfan Seion, Dinbych am 7.00 yng nghwmni y Parch. Meirion Morris fydd yn dod i gyflwyno y rhaglen Dorcas.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 30^{ain} Hydref 2011

Ceisiadau gweddi i Celfyn (550274)
neu Hafwen (813445) cyn nos
Fawrth, os gwelwch yn dda.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Tua'r adeg yma o'r flwyddyn rydym yn dathlu gwaith Cymdeithas y Beibl ac yn meddwl am y fraint sydd gennym o gael y Beibl cyfan yn yr iaith Gymraeg. Cafodd Mair a Rhodri a finnau gwmni Watcyn a Lowri James y dydd o'r blaen yn y Bala a buom draw i eglwys hanesyddol Llanycil sydd bellach yn eiddo i'r Gymdeithas. Cawsom agoriad llygaid yn wir o gael ein tywys gan Watcyn a Lowri trwy hanes yr enwogion a'r aelodau cyffredin sydd wedi eu claddu yno. Roedd yn rhaid diolch i Dduw mewn gweddi wrth sylweddoli maint y fendith sydd wedi dod i rannau helaeth o'r byd am fod rhai unigolion ymroddgar wedi cydio yn y weledigaeth fawr o gael 'Beibl i bawb o bobl y byd'!

Yn yr ysbryd hwn felly rwyf am ddwyn eich sylw heddiw at un o gyhoeddiadau diweddaraf y Gymdeithas yn Gymraeg, sef cyfieithiad Beibl.net o efengyl Marc.


Mae hwn yn gyfieithiad hawdd i'w ddarllen ac mae'r llyfryn yn ddeniadol o syml. Rwyf wedi archebu nifer o gopiau o'r llyfryn yn y gobaith y byddwn ninnau fel aelodau yn dod yn ddosbarthwyr y Gair i'n gilydd ac i'n teuluoedd a'n ffrindiau.

Punt yr un yw cost y cyhoeddiad hwn o'r efengyl yn ôl Marc – ac rwy'n hyderus y bydd galw amdanynt. Beth am eu rhoi i'n teulu a'n cydnabod yn hytrach na cherdyn Nadolig eleni? – dydy'n nhw fawr drytach na thrymach na cherdyn Nadolig a byddant yn cario neges y Nadolig am hanes a phwrpas dyfodiad Crist yn llawer mwy effeithiol. Ac os ffeindiwch eich bod yn derbyn mwy nag un copi – wel, mi fedrwn eu pasio ymlaen i gymdogion neu ffrindiau eraill sydd heb yr un!

Neu beth am i bob capel brynu digon i'w rhoi i bob teulu sy'n aelodau gyda chyfarfodion y Nadolig a gair o anogaeth i'w ddarllen ac i ddod i'r oedfaon i glywed y newyddion da? Fel disgyblion Iesu, ein baint yw rhannu'r Gair a chael y boddhad o wybod y bydd Duw yn bendithio'i air fel y mae'r had yn cael ei fendithio i ddwyn ffrwyth a chynhaeaf newydd. Un o'r pethau gorau a wnawn i annog ein gilydd ydi rhoi Gair Duw i'n gilydd a'i roi ar waith yn ein calonnau ac ar ein haelwydydd. Gweddiwn yr un pryd y bydd Duw yn goleuo ei air i ni trwy'i Ysbryd Glân.

Cysylltwch hefo Mair, Rhodri neu finnau i gael eich copi(au) a chofiwch weddio dros lwyddiant y Gair yn ein plith.

“Ond yr had sy'n syrthio ar dir da ydy'r bobl hynny sy'n clywed y neges ac yn ei chredu.” Marc 4:20 o Efengyl Marc, Beibl.net



Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Gan ei bod yn bumed Sul, ni fydd **Oedfa i'r Fro** yn Llansannan heno ond mae croeso i unrhyw un ymuno yn yr oedfa a gynhelir yng Nghapel Bethania, Llansannan am 5.30 pryd y bydd y Parch John Lewis Jones yn pregethu.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
• **Noson arddangos a hyrwyddo gwerslyfrau ac adnoddau Cristnogol** yn Ninbych. (*Manylion ar y cefn*)
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn y Ffestri Llansannan am 8.00.
lau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- Gwener • **Cwis C.I.C.** (Clwb Ieuenticid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Noddfa, Bow Street.
• **Bore arddangos a hyrwyddo gwerslyfrau ac adnoddau Cristnogol** yn Abergele. (*Manylion ar y cefn*)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd John Emyr Roberts a'i wraig, Gwen sydd yn Weithiwr Cristnogol mewn ysgolion yng Ngaerdydd, yn dod draw atom i gymryd rhan yn yr oedfa. Bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mercher Cymdeithas Undebol Llanfair Talhaiarn yn cyfarfod yn y Neuadd Goffa am 7.30 yng nghwmni Iwan Price o Gerrig y Drudion fydd yn trafod "Byd Amaethyddiaeth". Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant am 10.00 a Rhodri yn rhoi anerchiad. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yn dilyn yr oedfa am 11.10. Bydd oedfa yng Nghapel Bethania am 5.30 gyda'r Parch John Lewis Jones yn pregethu. Cynhelir Pwyllgor Cymdeithas y Beibl yng Nghapel Bethania yn dilyn yr oedfa.
- Llun Cyfarfod Blynnyddol i aelodau Capel Hiraethog yn y Granar am 7.30.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn pregethu ym Mheniel am 10.00 a Mr Arwel Roberts yn pregethu yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Mrs Enid Davies yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 a chynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.